Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INF188/4W

# Gyrwyr ceir neu feiciau modur gydag afiechyd y galon

## Pryd fydd angen i chi roi gwybod i ni am eich afiechyd

**Cadwch hwn i gyfeirio ato yn y dyfodol.**

**Dewch o hyd i wybodaeth am wasanaethau ar-lein DVLA**
**Ewch i:** www.gov.uk/browse/driving

4/19

Cyf:CLE1066

### Gyrru gydag afiechyd y galon

**Nid** oes raid i chi ddweud wrth DVLA os bydd gennych unrhyw un o'r cyflyrau canlynol:

- trawiad ar y galon (syndrom coronaidd llym i gynnwys cnawdnychiad myocardiaidd)
- llawdriniaeth i ddargyfeirio'r rhydwelïau coronaidd (CABG)
- angioplasti coronaidd (a elwir hefyd yn ymyrraeth goronaidd trwy'r croen)
- clefyd/llawdriniaeth falf y galon, neu
- angina.

**Ond, er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffordd, rhaid i chi fod yn siwr bob amser y gallwch reoli eich cerbyd yn ddiogel.**

**Peidiwch â gyrru nes bydd eich meddyg yn dweud eich bod yn ffit i ailddechrau gyrru, pan fydd y cyfnod gofynnol o beidio â gyrru wedi bod.**

### Syndrom coronaidd llym gan gynnwys trawiad ar y galon/llawdriniaeth ar y galon

Dylech beidio â gyrru am un mis o leiaf ar ôl digwyddiad o'r fath.

### Angioplasti coronaidd

Rhaid i chi beidio â gyrru am un wythnos o leiaf ar ôl triniaeth lwyddiannus. Os nad yw'r driniaeth yn llwyddiannus dylech beidio â gyrru am bedair wythnos o leiaf.

### Angina

Gallwch barhau i yrru os oes gennych angina (os oes angen meddyginiaeth neu beidio) **oni bai** ei fod yn digwydd wrth orffwyso, **tra** byddwch yn gyrru neu gydag emosiynau. Os bydd hyn yn wir **rhaid i chi stopio gyrru a dim ond** ar ôl i chi gael y symptomau dan reolaeth **y gallwch ail ddechrau**.

### Afiechydon y galon a all achosi ymosodiadau sydyn neu bendro sy'n peri anabledd neu lewygu

Mae'r rhain yn cynnwys cyflyrau yr ydych wedi cael **rheoliadur y galon neu ddiffibriliwr cardiofertaidd** (ICD) wedi ei mewnblannu. **Bydd raid i chi ddweud wrth DVLA a pheidio â gyrru.** Bydd eich meddyg neu Arbenigwr y Galon yn medru dweud wrthych pryd y byddwch yn medru gyrru eto trwy ymgynghori â'r safonau ffitrwydd meddygol perthnasol a gyhoeddir ar wefan GOV.UK.

**Unwaith eto, er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffordd rhaid i chi fod yn siŵr bob amser y gallwch reoli eich cerbyd yn ddiogel.**

Os oes gennych unrhyw amheuon am eich gallu i barhau i yrru yn ddiogel, dylech drafod y mater gyda'ch meddyg a fydd yn medru eich cynghori a ddylech ddweud wrth DVLA am eich cyflwr.

### Cysylltu â ni

Os ydych yn derbyn cyngor i roi gwybod i DVLA eto am eich cyflwr bydd angen i chi gwblhau holiadur meddygol: Gellir lawrlwytho holiaduron yn **www.gov.uk/driving-medical-conditions**

Mae holiaduron hefyd ar gael i'w harchebu trwy:

| | |
|---|---|
| Ffônio: | **0300 790 6806 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg** |
| Ysgrifennu i: | **Grŵp Meddygol y Gyrwyr<br>DVLA<br>Abertawe<br>SA99 1TU** |